

MONOLOGAU

5. FIVE KINDS OF SILENCE

SHELAGH STEPHENSON

Cyfieithiad Cefin Roberts

Daw'r dyfyniad hwn o gyfieithiad o Five Kinds of Silence gan Shelagh Stephenson
a gyhoeddwyd gan Methuen Drama yn 1997.

© Shelagh Stephenson 1997.

Cyfieithwyd ac atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Julia Tyrrell Management.

Cyfieithwyd y dyfyniad i'r Gymraeg gan Cefin Roberts.

©Cefin Roberts

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad yn y lle cyntaf at Ganolfan
Peniarth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin,

SA31 3EP | post@peniarth.cymru

FIVE KINDS OF SILENCE – SHELAGH STEPHENSON**Cyfieithiad Cefin Roberts**

BILLY: Dwi'n gwely, fel bol buwch, mhenglinia fi'n swat ar 'y mrest. Rhewi ... Brathu o oer, methu cysgu hyd yn oed hefo 'nghôt a'n sgidia fi mlaen. Gweiddi ar y landing, cnocio, curo – fel bob nos. Dad 'di meddwi. Hitha'n sgrechian arno fo. Diawl! Ti'n da i uffar o 'mbyd i mi. Diawl o ddim byd, a fynta'n rhuo fel tarw mewn lladd-dy, dim geiria, rhy feddw i hynny. Dan y gobennydd rwan, fi, rhowch gora iddi ond fedra i 'u clwâd nhw, dwi'n gwbod. Dwi 'di gweld nhw'n brathu a rhwygo – penna'n cnocio ar walia, dannadd yn malu, gwaed yn tasgu. Y mochyn meddw. Bustachu, tri cham ffor 'na, tri cham ffor 'ma, un, dau, tri, un, dau, tri. Pren yn cracio. Y mochyn ffiadd dall! Clwâd nhw'n syrthio, teimlo'i esgyrn, 'i ben o'n colbio'n erbyn y grisia, gewynna'n rhwygo a rhoid. Hi'n deud dos o 'ma, ti'n da i ddim i neb. Dwi'm yn y gwely rwan, rhedag lawr grisia. Drws ffrynt ar agor, hi'n trio'i daflu fo allan i'r stryd ond ma hi'n gafal yn 'i wddw fo ac yn sgrechian fel hyn arrggh – fel hen wrach 'di cholli hi. Dwi'm isio clwâd Mam yn nadu fel 'na felly dwi'n 'i chicio hi. Dwi'm yn gwbod pam. Ond dyna dwi'n neud. Mae o ar 'i linia ar y stryd, rhew ar y lôn, sgleinio. Mae o'n codi a syrthio'n glewt a mae o'n ddall hefo'r ddiod. 'I ddwylo fo ar led, isio rywun i'w helpu fo. Mae o'n gneud ryw swân. Lllysnafadd a dagra'n bob man. Ast, medda fo, ast. Bastad dall, rho'r gora iddi, Dad, ti'm i fod i grio – byth. Gas gin i dy weld di'n gneud hynna, casáu gwranddo arnach chdi. Dwi'n falch pan ma hi'n cau drws. Ma hi'n dyrnu 'mhen i, waldan, be ti'n da i fyny? Ma hi'n rhewi'n llofft Mam, dywyll bitsh, fel bod yn ddall dwi'm isio bod yn ddall fatha 'nhad dwi'm isio mynd yn ddall. Ma hi'n tynnu'n 'mraich i a gwasgu hefo'i dwy law fel tasa hi'n gwasgu'r dŵr o ddillad g'lyb. Paid â bod gymaint o fabi, paid â bod gymaint o blydi babi. Dwi'm yn licio meddwl amdano fo yn y twllwch, cnocio i mewn i betha. Dwi'm yn licio meddwl amdano fo. Felly dwi ddim ...

Cefndir

Perfformiwyd y ddrama hon am y tro cyntaf yn y Lyric Hammersmith ym mis Mai, yn y flwyddyn 2000.

Gwelwn Billy'n cael ei ladd gan ei wraig a'i ddwy ferch ar ddechrau'r ddrama, y tair yn rhan allweddol o'r weithred a'r un mor euog â'i gilydd o'r llofruddiaeth. Ond mae presenoldeb sinistr Billy yn rhan allweddol o'r ddrama drwyddi, gan iddo gam-drin ei wraig a'i ddwy ferch yn gorfforol, rhywiol ac emosiynol, fel nad oes modd iddynt ei waredu'n llwyr o'u bywydau. Mae ei lais yn aros drwy gydol y ddrama, yn eu hatgofion a'u hunllefau.

Cafodd Billy ei hun ei gam-drin pan oedd yn blentyn ac mae'r ddrama'n edrych ar y modd y gall person sy'n cael ei gam-drin yn ystod ei blentyndod fynd ymlaen i gam-drin ei blant ei hun.

Cynnwys

Mae'r fonolog hon yn ymddangos yn weddol fuan yn y sript a Billy'n adrodd ei atgofion am ei blentyndod gyda'i rieni treisgar.

Awgrymiadau

Gallai'r araith dywyll hon weithio gyda llongydwch pur. Mae cymaint yn digwydd ynddi o safbwynt yr hyn mae Billy'n ei ddisgrifio, mae digon o symud yn y darluniau mae'n eu hadrodd fel nad oes galw am ormod o waith corfforol. Nid y dylai hynny eich cyfyngu chi o safbwynt y llwyfaniad. Awgrym yn unig yw'r syniad o lonyddwch, ond mae'n teimlo fel bod y cymeriad i mewn yn ei gragen yn adrodd yr atgof tywyll yma.